Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i **https://llyw.cymru/strategaeth-ddigidol-i-gymru-cynllun-cyflawni-html** (https://llyw.cymru/strategaeth-ddigidol-i-gymru-cynllun-cyflawni-html) i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint** (https://llyw.cymru/datganiad-hawlfraint).

**POLISI A STRATEGAETH**

# Strategaeth ddigidol i Gymru: cynllun cyflawni

Sut rydym yn bwriadu trosglwyddo'r strategaeth.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 23 Mawrth 2021

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Tachwedd 2022

## Gwasanaethau digidol

| Nawr | Nesaf | Dyfodol |
|---|---|---|
| • Adolygu sut mae gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn cael eu darparu'n ddigidol a defnyddio'r wybodaeth hon i sbarduno trawsnewid strategol pellach mewn meysydd allweddol.<br>• Datblygu a hyrwyddo canllawiau i gefnogi'r gwaith o fabwysiadu a gweithredu'r safonau gwasanaeth digidol.<br>• Adolygu canfyddiadau o gam alpha Campws Digidol, academi sgiliau digidol y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, a datblygu cyfres o hyfforddiant sgiliau digidol sy'n diwallu anghenion y rhai sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.<br>• Ehangu ein harweinyddiaeth ddigidol yng Nghymru drwy benodi Prif Swyddog Digidol ar gyfer Iechyd a Gofal a sicrhau bod y Prif Swyddogion Digidol a'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus digidol.<br>• Creu cymuned hyfforddi a rhannu gwybodaeth i gefnogi'r gwaith o greu a darparu | • Cyflwyno cyfres o brosiectau arddangos fel enghreifftiau o adeiladu gwasanaethau da yn seiliedig ar egwyddorion dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.<br>• Creu a hyrwyddo cyfres o safonau technoleg i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus gwell.<br>• Datblygu dealltwriaeth o ofynion a chynllun ar gyfer dulliau hunaniaeth ddigidol a rennir ar draws gwasanaethau cyhoeddus.<br>• Datblygu meysydd ar gyfer cydweithio ar draws arweinyddiaeth y Prif Swyddog Digidol ac ymwneud ag arweinyddion digidol yn ehangach ar draws cyrff cyhoeddus.<br>• Cyhoeddi'r Strategaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Digidol yng Nghymru.<br>• Creu a hyrwyddo | • Cytuno a nodi cyfleoedd ar gyfer pensaernïaeth a rennir ar gyfer systemau a gwasanaethau sector cyhoeddus.<br>• Cyflawni'r Strategaeth ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. |

| Nawr | Nesaf | Dyfodol |
| --- | --- | --- |
| gwasanaethau digidol da gydag offer gweithredu a chanllawiau i ymarferwyr.<br>• Ymgymryd â cham darganfod er mwyn edrych ar sut y gall defnydd priodol o dechnoleg a’r byd digidol gyfrannu at lwyddo i gyrraedd y targed allyriadau carbon sero net.<br>• Parhau i gefnogi sefydliadau ar draws sectorau yng Nghymru i gryfhau eu gwydnwch seiber drwy hyfforddiant a thrwy weithio mewn partneriaeth.<br>• Cefnogi gwasanaethau cyhoeddus i ymgymryd ag ymchwil defnyddwyr gyda gwahanol grwpiau poblogaeth wrth ddatblygu gwasanaethau.<br>• Gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod polisi a rheoleiddio digidol a data ar gyfer y DU yn cael eu darparu yng Nghymru yn briodol ac yn diwallu ein hanghenion. | canllawiau a deunyddiau cymorth eraill i helpu gwasanaethau cyhoeddus Cymru i wneud penderfyniadau a gweithredu arferion gorau ar ddefnyddio technoleg sy'n lleihau’r effaith amgylcheddol o ddarparu gwasanaethau.<br>• Cyhoeddi Cynllun Gweithredu Seiber i Gymru i ddwyn ynghyd ddatganiad uchelgais a gweithgareddau cydlynol mewn perthynas â seiber yng Nghymru.<br>• Bwrw ymlaen â gwaith i sicrhau bod sefydliadau'r sector cyhoeddus yn adolygu eu seilwaith etifeddol ac yn eu moderneiddio yn briodol. | |

## Cynhwysiant digidol

| Nawr | Nesaf | Dyfodol |
|---|---|---|
| • Archwilio safon byw'n ddigidol gofynnol i Gymru sy'n cynnwys llinell sylfaen gydnabyddedig ar gyfer yr hyn y mae'n ei olygu i gael eich cynnwys yn ddigidol e.e. cyflymder cysylltedd, dyfeisiau a sgiliau digidol sylfaenol.<br>• Sicrhau bod ymyriadau priodol ar waith i gefnogi pobl i fagu'r hyder digidol i ddefnyddio gwasanaethau digidol a gwybod ble i fynd am gymorth.<br>• Sicrhau bod staff rheng flaen a gwirfoddolwyr yn gallu cael hyfforddiant i fod yn ddigidol hyderus. | • Comisiynu ymchwil i ddeall y rhwystrau a wynebir gan y rhai nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau digidol.<br>• Adeiladu ar y gwaith o fapio gweithgarwch cynhwysiant digidol sy’n digwydd ledled Cymru. | • Defnyddio'r mecanweithiau sydd ar gael i ddylanwadu ar gwmnïau telegyfathrebiadau i ddarparu tariffau sydd wedi'u hanelu at y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.<br>• Gweithio gyda phob sector i sicrhau bod opsiynau amgen ar gyfer defnyddio gwasanaethau digidol ar gael i bawb ac wedi'u cynllunio i'r un safon â'r rhai a ddisgwylir gan wasanaethau digidol. |

## Sgiliau digidol

| Nawr | Nesaf | Dyfodol |
|---|---|---|
| • Parhau i ddarparu cymorth drwy hyfforddiant sgiliau ac ymwybyddiaeth sy'n gwella | • Ystyried y materion a'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer dysgu digidol a dysgu cyfunol yn y | • Adolygu ac ystyried cynnwys prentisiaethau i sicrhau eu bod yn |

| Nawr | Nesaf | Dyfodol |
| --- | --- | --- |
| gwasanaethau digidol wrth gyflwyno dysgu ac yn nodi cyfleoedd i wneud mwy.<br>• Parhau i gynnig darpariaeth TG a phrentisiaethau digidol helaeth yng Nghymru ar lefel is-radd a gradd.<br>• Adolygu gwaith presennol y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, megis adroddiadau Covid-19, ar gyfer gwybodaeth am ofynion sgiliau digidol yng Nghymru.<br>• Parhau i gyflwyno’r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol sy’n darparu cyrsiau digidol i unigolion cyflogedig sydd am ennill mwy o sgiliau neu rai newydd er mwyn gwella eu cyfleoedd o ran gyrfa ac yn gysylltiedig â gwaith.<br>• Parhau i gefnogi ysgolion i ddarparu cymhwysedd digidol fel sgil drawsgwricwlaidd sydd wrth galon y cwricwlwm i Gymru ac i baratoi dysgwyr i fod yn ddinasyddion digidol effeithiol a da, gan wella | sectorau Addysg Bellach a Dysgu Oedolion yn y Gymuned a chyfleoedd i adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod pandemig Covid-19.<br>• Datblygu cefnogaeth ar gyfer cynlluniau bŵt-camp digidol drwy gyllid arloesi.<br>• Cynnal peilot ar gyfer prosiect Prentisiaeth a Rennir digidol newydd a gwerthuso deilliannau.<br>• Gweithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i lunio eu gwaith ar sgiliau digidol wrth iddynt ddatblygu atodiad sgiliau digidol i'w cynlluniau cyflogaeth a sgiliau tair blynedd sydd ar y gweill, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gofynion polisi.<br>• Ehangu’r ystod o gymwysterau digidol newydd ar gyfer darparu drwy Gyfrifon Dysgu Personol.<br>• Adolygu a datblygu’r fframwaith cymhwysedd digidol i sicrhau y gall dysgwyr ledled Cymru ffynnu mewn byd sy’n | parhau i fod yn berthnasol i anghenion cyflogwyr. Bydd hyn yn cynnwys ystyried ehangu'r cynnwys i ddiwallu anghenion sefydliadau'r sector cyhoeddus.<br>• Parhau i weithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i gryfhau ymhellach eu dull o gasglu gofynion sgiliau digidol a chynyddu buddsoddiad cyflogwyr mewn sgiliau digidol. |

| Nawr | Nesaf | Dyfodol |
| --- | --- | --- |
| eu cyfleoedd o ran gyrfa ac yn gysylltiedig â gwaith.<br>• Parhau i gefnogi ysgolion gyda'r Daith Dysgu Proffesiynol Digidol a helpu arweinwyr, athrawon a dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r ymddygiadau, gan gynnwys eu cadw'n ddiogel ar-lein. | newid drwy’r amser.<br>• Adolygu ac esblygu effeithiolrwydd y Daith Dysgu Proffesiynol Digidol i sicrhau bod gan arweinwyr, athrawon a dysgwyr y sgiliau, yr wybodaeth a'r agweddau a fydd yn eu galluogi i ddefnyddio digidol a thechnoleg yn hyderus ac yn greadigol. | |

# Economi ddigidol

| Nawr | Nesaf | Dyfodol |
| --- | --- | --- |
| • Cefnogi arloesedd digidol. Trwy weithio gyda busnesau, cyrff diwydiant, sefydliadau ymchwil ac eraill i ganolbwyntio ar glystyrau diwydiannol penodol.<br>• Darparu ffrydiau gwaith ar gyfer clystyrau blaenoriaeth cychwynnol y cytunwyd arnynt.<br>• Cryfhau Cymru fel allforiwr digidol drwy greu ecosystem | • Comisiynu ymchwil i helpu i flaenoriaethu clystyrau i gael sylw yn y dyfodol.<br>• Cychwyn ffrydiau gwaith a chamau gweithredu ar gyfer clystyrau blaenoriaeth y cytunwyd arnynt | • Cyflawni camau gweithredu o Gynlluniau Gweithredu Clwstwr cyhoeddedig.<br>• Datblygu cynigion mewnfuddsoddi ecosystemau digidol.<br>• Sbarduno gwelliannau pellach, gan gynnwys mwy o dryloywder, defnyddio'r Bil Diwygio |

| Nawr | Nesaf | Dyfodol |
| --- | --- | --- |
| ffyniannus o arbenigedd masnachol ac academaidd sy'n sbarduno arloesedd digidol mewn technolegau sy'n datblygu.<br>• Cefnogi datblygiad Cyflymydd Cenedl Ddata Cymru i sefydlu gweithgareddau cydweithredol.<br>• Paratoi Canolfan Arloesi Seiber Cymru a darparu manteision i Gymru.<br>• Cefnogi a hyrwyddo'r gwaith o ddarparu cymorth seiberddiogelwch i fusnesau yng Nghymru i gryfhau eu gwydnwch pan fyddant yn wynebu bygythiadau seiber.<br>• Chwilio am gyfleoedd ar gyfer mannau gweithio a rennir ar draws y sector cyhoeddus a'r sector preifat, er mwyn annog cydweithredu a lleihau teithio.<br>• Darparu map ffordd i wella arferion a phrosesau caffael, gan sicrhau gwell canlyniadau i bawb.<br>• Cyflymu aeddfedrwydd, cynhyrchiant a sgiliau digidol busnesau. | ymhellach.<br>• Manteisio ar allbynnau Cyflymydd Cenedl Ddata Cymru er budd Cymru.<br>• Archwilio cyfleoedd i dyfu ecosystem seiber.<br>• Adeiladu ar y berthynas â'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ar gyfer cyngor seiber i fusnesau.<br>• Gweithredu gwelliannau gan ddefnyddio'r ddeddfwriaeth gaffael bresennol (Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015). | Caffael newydd a'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael. |

## Cysylltedd digidol

| Nawr | Nesaf | Dyfodol |
| --- | --- | --- |
| • Cefnogi defnydd a arweinir gan y gymuned drwy gynlluniau talebau, fel Allwedd Band Eang Cymru, cyllid grant fel y Gronfa Band Eang Lleol. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad o £4.2 miliwn yn y Ganolfan Prosesu Signal Digidol ym Mhrifysgol Bangor i ariannu ymchwil a chysylltu safleoedd yn Ynys Môn.<br>• Ystyried canfyddiadau'r tasglu ar fuddsoddiad mewn cysylltedd digidol a'i gyflwyno.<br>• Parhau i ddatblygu a darparu cysylltedd rhwng y sector cyhoeddus yng Nghymru drwy ddatblygu Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus ar y cyd â gofynion y sector cyhoeddus ar gyfer mwy o gysylltedd.<br>• Sefydlu protocolau a phrosesau gyda Llywodraeth y DU i gefnogi cynlluniau'r DU fel y Rhwydwaith Rhannu Gwledig a Rhaglen Band Eang Gigabit. | • Ail-fuddsoddi cyllid a ddychwelwyd drwy ein cynllun cyflym iawn i wella cysylltedd digidol drwy ymyriadau seilwaith wedi'u targedu. | • Adolygu'r modelau perchnogaeth a masnachol ar gyfer asedau dwythell a ffibr y sector cyhoeddus. |

## Data a chydweithio

| Nawr | Nesaf |
| --- | --- |
| • Cynnal rhaglen waith a newid diwylliant er mwyn gwella dulliau rhannu data ar draws y sector cyhoeddus.<br>• Manteisio ar ffynonellau data newydd a phresennol i lywio dadansoddiadau, gwneud penderfyniadau ac ymchwil drwy gyflawni cam nesaf Ymchwil Data Gweinyddol Cymru a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gydweithio â'r byd academaidd ac eraill ar arloesedd a yrrir gan ddata.<br>• Gweithio gyda'r Ganolfan Moeseg Data ac Arloesi i ymgorffori egwyddorion moesegol ar draws yr holl gemau gweithredu yn y cynllun cyflawni hwn.<br>• Datblygu fersiwn nesaf porth Stats Cymru, gan roi defnyddwyr wrth wraidd ei ddyluniad.<br>• Parhau i ddatblygu Map Data Cymru, y platfform data a rennir sy'n ffynhonnell ar gyfer data geo-ofodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, o gynllun beta i gynllun byw. | • Datblygu "addewid data" ar gyfer iechyd a gofal, sy'n rhoi sicrwydd i ddinasyddion ynghylch sut mae eu data iechyd a gofal yn cael eu cadw a'u defnyddio. Gweithio gyda'r Rhaglen Ddata Genedlaethol i ymgynghori ar set ehangach o egwyddorion ar gyfer defnyddio data yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.<br>• Cytuno ar ddull o bennu ac ymgorffori safonau data ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.<br>• Datblygu amrywiaeth o gymunedau data ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i gydweithio, rhannu arbenigedd a chefnogi ei gilydd, a fydd yn gwella aeddfedrwydd ac arbenigedd data.<br>• Datblygu canllawiau ar ba ddata gwasanaethau cyhoeddus ddylai fod ar gael mewn fformat agored. |

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.

Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** (https://llyw.cymru/datganiad-hygyrchedd-llywcymru) i gael rhagor o wybodaeth.